

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod:	28 Ionawr 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Huw Hilditch-Roberts (Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant)
Awdur yr Adroddiad:	Arweinydd Craidd GwE/Geraint Davies (Pennaeth Addysg dros dro)
Teitl	Rhaglen waith a chefnogaeth i ysgolion yn ystod pandemig COVID

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I gyflwyno adroddiad ar sut mae'r consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol wedi esblygu ac addasu i gefnogi ysgolion yn ystod pandemig COVID a sut y mae ysgolion wedi addasu i ffyrdd newydd o weithio wrth ymateb i gyfyngiadau COVID-19 a'r effaith ar arferion darparu addysg yn y dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ddarparu sicrwydd fod yr holl ymdrechion yn cael eu gwneud i gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn yn ystod amser heb ei debyg o'r blaen a bod y trefniadau yn ddigon hyblyg i addasu i sefyllfa sy'n gyfnewidiol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Estynnwyd gwahoddiad i Aelodau Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac os yn briodol i wneud argymhellion ar sut i wella'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr ac i nodi unrhyw agwedd o'r gwaith adfer a fyddai'n elwa o archwiliad manwl yn y dyfodol.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Mae staff yn yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu ei gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl ysgolion yn ystod pandemig COVID (Atodiad 1).
- 4.2. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn ei gyfanrwydd wedi newid ei ffocws sawl gwaith yn ystod y cyfnod hwn i gwrdd â gofynion yr amrywiaeth o randdeiliaid. Y gallu i fod yn ystwyth a hyblyg ac i gydweithio'n effeithiol mewn gwahanol dimau, yn aml yn draws-sector, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol a chanfyddiad allanol. Mae cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgol wedi cael ymateb da ac wedi cyfrannu at Benaethiaid yn teimlo y gallent droi at gydweithiwr proffesiynol i rannu problemau heriol ac i ddod o hyd i atebion i fynd i'r afael ag achosion o ddydd i ddydd.
- 4.3. Cefnogaeth i les uwch arweinwyr wedi cael ei ddarparu trwy gyfres o weithdai a gweminarau a fydd yn cefnogi cadernid yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae staff GwE hefyd yn cynnal ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb i ysgolion yn ystod tymor yr hydref ar ran Awdurdodau Lleol.
- 4.4. Un o'r prif gryfderau o weithio ar draws Gogledd Cymru yw'r cysylltiad cyson rhwng y chwe awdurdod lleol trwy eu deiliaid portffolio gwleidyddiaeth addysg a chyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE ar un neges gyffredinol i ysgolion yng Ngogledd Cymru. Mae'r cysondeb hwn o gysylltu nid yn unig wedi cael ei groesawu gan ysgolion ond hefyd gan undebau athrawon ac undebau sydd ddim yn rhai athrawon sy'n croesawu eglurder negeseuon a chefnogaeth i'w staff. Un enghraifft yw grŵp gweithredol awdurdod lleol a staff rhanbarthol sy'n datblygu ac yn gweithio ar bolisi asesiad risg, cyngor a chanllawiau ac yn creu dangosfwrdd rhanbarthol gyda sail gadarn i'r holl ysgolion i allu ail-agor ac adnabod y risgiau a'u rheoli a'u cefnogi yn lleol.
- 4.5. Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cymryd ymagwedd ranbarthol golegol a chasgliadol i gefnogi ysgolion drwy'r pandemig COVID. Cafodd hynny ei arddangos yn amlwg drwy'r ymagwedd ranbarthol gyson mewn datblygu fframwaith cefnogol i sicrhau fod yr holl ysgolion rhanbarthol gyda'r polisïau cywir yn eu lle ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr er mwyn creu amgylchedd mwy diogel i groesawu plant yn ôl i'r ysgolion. (Atodiad 2)

Mae'r fframwaith yn cynnwys adnoddau i gefnogi cynllunio ar gyfer:

- 1) Gofynion iechyd a diogelwch
- 2) Trefniadau safle a chyfleusterau
- 3) Cludiant
- 4) Trefniadau staffio
- 5) Dysgu ac addysgu cyfunol
- 6) Cynnwys a chynorthwyo disgyblion
- 7) Tasgau rheoli allweddol

- 4.6. Un agwedd nodedig o'r gwaith hefyd yw natur bwrpasol y gefnogaeth i athrawon ac ysgolion. Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm sy'n cael eu hadleoli pan fyddan nhw wedi cael yr effaith fwyaf yn eu rolau yn cefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau, pynciau a rhwydweithiau cyfnod. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hwn o gymorth yn seiliedig ar egwyddorion cadarn o gydweithio, cyfnewid a rhannu ac mae datblygu arfer da yn egwyddor dysgu allweddol a fydd yn parhau i ddatblygu yn y cyfnodau nesaf o ddatblygu'r gwasanaeth.
- 4.7. Mae ysgolion sy'n achosi pryder cyn y cyfnod clo wedi cael mynediad i gymorth eglur ac wedi'i dargedu i'w helpu nhw drwy'r cyfnod anodd hwn. Mae hyn wedi bod ar sawl lefel yn cynnwys cymorth gyda'r rhwydwaith, cymorth i uwch reolwr a rheolwyr canol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae ysgolion sydd wedi gweld y cyfnod clo ac ar ôl y cyfnod clo yn gyfnod anodd gan fod staff yn gorfod hunanynysu wedi cael cefnogaeth mewn amrywiol ffyrdd. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminarau, deunyddiau ac adnoddau ar y cyd. Hefyd, mae staff GwE yn arwain yn uniongyrchol, yn dysgu'n uniongyrchol mewn ysgolion neu'n darparu dysgu o bell i ddysgwyr.
- 4.8. Mae llawer o amser ac egni wedi cael ei dreulio i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac i wneud ymchwil ar ymarfer rhyngwladol i ddysgu a sefydlu'r egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol. Mae trafodaethau gyda chydweithwyr rhyngwladol yn cynnwys Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi dyfnhau'r syniadau o fewn y sefydliad hefyd. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael rhagolwg strategol gwell o'u darpariaeth.

- 4.9. Mae GwE hefyd yn cefnogi ysgolion mewn gwerthuso'r safon o'u darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol, gan rannu enghreifftiau lleol ac astudiaethau achos o ddarpariaeth effeithiol i leihau amrywiad lle mae'n bodoli. Mae ffrydio byw yn datblygu'n dda ac yn gwella'r profiad dysgu cyfunol. Mae ysgolion wedi sylweddoli y bydd COVID gyda nhw am gyfnod estynedig ac yn cynllunio'n fwy strategol ac effeithiol. Wrth i ysgolion a sefydliadau ddod yn fwy hyderus gyda dysgu o bell, bydd hi'n haws iddyn nhw hefyd i addasu eu prosesau a'u hoffer hunanwerthuso i fonitro, gwerthuso, adolygu a diwygio'r ddarpariaeth os oes angen.
- 4.10. Mae arweinwyr ysgol yn cydnabod mai un o'r heriau mwyaf sydd wedi bod gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol yw sicrhau bod gan staff a disgyblion y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol wrth law. Mae'r broses o gyflwyno sgiliau i rai staff ar blatfformau digidol wedi cyflymu. Mae ysgolion wedi ymgymryd ag amrywiaeth o addysgu proffesiynol wedi'i gynllunio a'i gynnig gan gonsortia rhanbarthol i ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi dysgu.
- 4.11. Mae llawer o ysgolion yn cydnabod fod ymrwymiad rhieni wedi bod yn ffactor allweddol mewn sicrhau dysgu o bell/dysgu cyfunol effeithiol. Mae GwE ac Awdurdodau Lleol wedi darparu amrywiaeth o arweiniad i gefnogi ysgolion i wella ymrwymiad rhieni, gan gynnwys rhannu arfer dda.
- 4.12. Mae GwE hefyd wedi mabwysiadu dull rhanbarthol i sbarduno dysgu, gan weithio ar dri lefel sy'n cynnwys cymorth cyffredinol wedi'i arwain gan y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu a'i arwain ar y cyd gan y consortiwm a'r awdurdod lleol, gyda'r awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb am yr agweddau mwyaf anodd. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth o weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau amryw o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol, llythrennedd a rhifedd, a'r rhain ar gael i'r holl ddysgwyr ar draws pob ystod oedran ym mhob ysgol. Mae effaith y gwaith hwn yn cael ei gasglu trwy ddangosfwrdd rhanbarthol sy'n cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i'r ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon. (Atodiad 3)
- 4.13. Yn ystod tymor yr hydref mae GwE wedi darparu cyfleoedd i ysgolion sefydlu cynghreiriau neu i weithio mewn clystyrau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â'r

bylchau mewn darpariaeth a ffyrdd eraill o ddarparu er mwyn cwrdd ag unrhyw sefyllfaoedd o gyfnodau clo yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn:

- ✓ Adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol o fewn clwstwr/cynghrair a gyda chlystyrau/cynghreiriau rhanbarthol eraill;
- ✓ Sicrhau fod yr holl adnoddau wedi'u hadnabod a'u datblygu yn cael eu cyflwyno trwy eu Cynghorydd Cefnogi Gwelliant i gael eu cynnwys ar Ganolfan Cymorth GwE;
- ✓ Cefnogi ysgolion o fewn y clwstwr gyda'u darpariaeth i fod yn barod ar gyfer unrhyw 'sefyllfaoedd cyfnod clo' yn y dyfodol;
- ✓ Blaenoriaethu cymorth ychwanegol ar gyfer y sector uwchradd er mwyn paratoi ar gyfer dyfarnu graddau arholiad yn 2021

4.14. Mae Cynnig Proffesiynol GwE ar gyfer y flwyddyn academaidd hon wedi cael ei ad-drefnu ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes: Lles, Y Daith o Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Sbarduno'r Dysgu a Dysgu Digidol. Yn ogystal bydd GwE yn parhau i hwyluso'r gwaith clwstwr i gefnogi gyda datblygu'r Cwricwlwm i Gymru, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg. Yn ystod cyfnod COVID mae GwE wedi adlewyrchu'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Mae adnoddau mewnol ac allanol wedi cael eu defnyddio i sicrhau bod gennym safbwynt cytbwys o safon y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad ac i gynllunio ein hisadeiledd ar gyfer y dyfodol. (Atodiad 4)

4.15. Prif ganlyniadau ac effaith y gwaith

- ✓ Ymagwedd ranbarthol golegol a chasgliadol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
- ✓ Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethu cadarn a chysondeb rhanbarthol gyda'r cymorth, cyfathrebu ac arweiniad a roddir i ysgolion.
- ✓ Mae cydweithio cryfach rhwng cyfoedion ar lefel clwstwr/fforwm wedi sicrhau meddyliad a chyfeiriad strategol sydd wedi'i datblygu ar y cyd yn effeithiol.
- ✓ Ymagwedd ranbarthol a lleol amlwg yn ei le ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i hysgolion at ddibenion gwahanol yn effeithiol.
- ✓ Mae ysgolion wedi'i hysbysu'n dda ac yn hyderus fod cymorth effeithiol ar gael pe bai ei angen.
- ✓ Mae lles arweinwyr ysgol yn cael ei gefnogi trwy gyfathrebiad rheolaidd a chlir.

- ✓ Arweiniad amlwg yn cael ei roi ar sut i flaenoriaethu a rhoi strwythur i Ddysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- ✓ Ysgolion wedi derbyn arweiniad ac adnoddau cydlynol i gefnogi dysgwyr diamddiffyn yn effeithiol gyda'u lles, ymrwymiad a'u dysgu.
- ✓ Arfer gorau yn cael ei rannu rhwng ysgolion a chlystyrau, h.y. ymrwymo gyda dysgwyr a theuluoedd anfoddog, platfformau digidol a systemau chyfathrebu, modelau dysgu cyfunol ac ati.

4.16. Canlyniadau ac Effeithiau Eraill

- ✓ Cyfathrebu effeithiol wedi'i ddarparu trwy bwynt cyswllt (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant) i arweinwyr ysgol a mynediad hawdd i gymorth.
- ✓ Mae ysgolion wedi aros ar agor i weithwyr allweddol mewn achos o brinder staff.
- ✓ Mae ysgolion wedi'i hysbysu'n dda ac yn hyderus fod cymorth ar gael pe bai ei angen. Mae lles arweinwyr ysgol yn cael ei gefnogi trwy gyfathrebiad rheolaidd.
- ✓ Dealltwriaeth ar y cyd o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni a staff
- ✓ Arweiniad amlwg yn cael ei roi ar sut i flaenoriaethu a rhoi strwythur i Ddysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- ✓ Ysgolion gyda mynediad i gyfoeth o adnoddau o safon i gyfeirio atyn nhw wrth iddyn nhw gynllunio a darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- ✓ Mae modelau dysgu o bell a dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu mabwysiadu, addasu neu gyfeirio atynt. Mae hyn yn ei dro wedi sicrhau arweinyddiaeth gryfach a gwell cydbwysedd gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- ✓ Ymagwedd wedi'i gydlynu i gefnogi ysgolion sydd wedi arwain at fwy o gysondeb a safon o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol ar draws y rhanbarth.
- ✓ Arfer gorau yn cael ei rannu rhwng ysgolion h.y. ymrwymo gyda dysgwyr a theuluoedd anfoddog, platfformau digidol a systemau chyfathrebu ac ati.
- ✓ Defnydd mwy cadarn o TGCh i alluogi cyfathrebu mwy effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a gyda rhanddeiliaid ysgolion.
- ✓ Staff ysgol yn meithrin sgiliau drwy ddefnyddio platfform digidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- ✓ Mae'r wybodaeth wedi'i rannu â'r ALI yn gyfredol a chymorth amserol yn cael ei gynnig i unrhyw Ysgol.
- ✓ Mewn cydweithrediad â'r ALI sicrhair fod y broses o benodi ymgeiswyr arweinyddiaeth ysgol yn briodol a theg.
- ✓ Negeseuon cyson wedi'u hanfon i ysgolion gan swyddogion GwE/ALI.

- ✓ Cydweithio wedi'i gryfhau rhwng cyfoedion ar lefel clwstwr yn ddigidol gan sicrhau meddwl strategol wedi'i ddatblygu ar y cyd.
- ✓ Cydweithio wedi'i gryfhau rhwng swyddogion awdurdod lleol a GwE.
- ✓ Ymagwedd ranbarthol a lleol eglur yn ei le ar gyfer addasu ysgolion ar gyfer dibenion gwahanol.
- ✓ Pasio negeseuon allweddol ymlaen yn effeithiol i staff ysgol er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- ✓ Mwy o gydweithio rhwng rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- ✓ Dealltwriaeth well o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- ✓ Mwy o ymwybyddiaeth ymysg arweinwyr ysgol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad i fusnes ysgol.
- ✓ Dysgu Proffesiynol o Safon wedi'i ddatblygu yn barod ar gyfer gofynion y dyfodol.
- ✓ Athrawon Newydd Gymhwyso yn eglur yn glŷn â chwblhau eu blwyddyn gynefino.
- ✓ Gwaith partneriaeth gadarn gyda Phrifysgol Bangor i sicrhau fod myfyrwyr ar hyfforddiant dysgu yn eglur yn glŷn â'r system benodi ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- ✓ Gwaith partneriaeth gadarn gyda Caban i sicrhau mwy o gyfleoedd ymchwil a chydabyddiaeth o ragoriaeth gan staff ysgol.

4.17. Y Camau Nesaf

- ✓ Cefnogi ysgolion i weithredu'r argymhellion gan y Bwrdd Dylunio a Darparu ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn haf 2021.
- ✓ Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i gefnogi lles Penaethiaid a staff ysgol.
- ✓ Darparu cynnig dysgu proffesiynol effeithiol i gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â gofynion uniongyrchol ac i weithredu siwrnai ddiwygio Llywodraeth Cymru
- ✓ Parhau i gefnogi clystyrau/cynghreiriau i gynllunio ar gyfer parhad dysgu fel eu bod yn gallu cwrdd yn effeithiol ag unrhyw sefyllfaoedd cyfnod clo yn y dyfodol.
- ✓ Cryfhau'r diwylliant, ymddygiad, systemau a phrosesau fel bod arweinwyr ac athrawon yn cymell i fabwysiadu dull colegol i wella ysgolion.
- ✓ Datblygu fframwaith ansoddol ranbarthol ar gyfer casglu a gwerthuso cynnydd yn gyfannol mewn ysgol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r maes hwn o waith yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn ardal lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio, a gyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rhywle y gall pobl ifanc flodeuo a chael y cychwyn gorau mewn bywyd beth bynnag yw'r heriau yr ydym yn ei wynebu oherwydd Covid 19.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd costau yn cael eu cwrdd o gyllidebau dirprwyedig sydd eisoes yn bodoli i ysgolion a hefyd cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes gofyniad i ymgynghori gyda'r pwyllgor craffu, fodd bynnag, bu trafodaethau gydag undebau llafur a phenaethiaid yn gadarnhaol iawn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r holl risgiau a'r camau i'w lliniaru wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Risg Agor Ysgolion.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau Craffu mewn perthynas â'r materion yn yr adroddiad hwn yn unol ag:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000;
- Adran 7.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor